



Y VALE

tafarn
dyffryn
aeron

Menter Tafarn y Dyffryn Cynnig Cyfranddaliadau

Dyddiad agor: 6 Tachwedd 2021

Dyddiad cau: 12 Rhagfyr 2021

www.tafarn.cymru
[@tafarnyvale](https://twitter.com/tafarnyvale)
cysylltu@tafarn.cymru



Menter gan bobl leol yw Menter Tafarn y Dyffryn.

Ein bwriad yw rhoi'r gallu i'r gymuned leol brynu Tafarn y 'Vale' er mwyn ei rhedeg fel cwmni cydweithredol (co-op). Gallwch chi fod yn rhan o'r fenter trwy fuddsoddi a phrynu siârs. Bydd y siârs yn ein galluogi i brynu ac adnewyddu'r adeilad.

Mae Menter Tafarn y Dyffryn Cyfyngedig yn Gymdeithas Budd Cymunedol sydd wedi'i chreu gan bobl y fro i sicrhau dyfodol Tafarn Dyffryn Aeron yn Ystrad Aeron, Ceredigion, a chynnal canolbwynt diwylliannol a chymdeithasol sydd o fudd i'r gymuned leol.

Bydd y cynnig hwn i brynu siârs (cyfranddaliadau) yn agor ar ddydd Sadwrn 6 Tachwedd, a bydd yn para am 5 wythnos gan gau ar ddydd Sul 12 Rhagfyr.

Rydym yn anelu at godi o leiaf £330,000 o'r Cynnig i Brynu Cyfranddaliadau, sy'n agored i'r gymuned ac i'r cyhoedd yn gyffredinol. Fe fyddwn yn defnyddio'r arian a godir, ochr yn ochr â grantiau yr ydym yn gobeithio eu sicrhau o ffynonellau eraill, i brynu ac adnewyddu'r dafarn. Rydym yn amcangyfrif bod cyfanswm cost y prosiect, sy'n cynnwys cost prynu'r eiddo a'i ailddatblygu, o gwmpas £600,000.

Mae prynu siâr yn eich gwneud chi'n Aelod o'r Gymdeithas ac yn rhoi llais i chi ar sut mae'n cael ei rhedeg. Mae gan bob aelod un bleidlais, s'dim ots faint o siârs maen nhw'n eu prynu. Bydd un siâr yn costio £1. Yr isafswm y gallwch ei fuddsoddi yw £200, a'r uchafswm yw £30,000.

Mae'r ddogfen hon:

- yn amlinellu'r prosiect, a sut y bydd yr aelodau a'r gymuned yn elwa ohono
- yn egluro natur y Gymdeithas a sut y bydd y cynnig siârs yn gweithio
- yn cynnwys gwybodaeth am sut i brynu siârs



Mae'r Marc Safon Cyfrannau Cymunedol yn cael ei ddyfarnu gan yr Uned Cyfrannau Cymunedol i gynigion sy'n cwrdd â safonau arfer da cenedlaethol.

I gael rhagor o wybodaeth am gyfranddaliadau cymunedol, y Marc Safon Cyfrannau Cymunedol a'r Uned Cyfrannau Cymunedol ewch i: communityshares.org.uk

Ein gweledigaeth a'n gwerthoedd

Beth sy'n bwysig i ni, a beth hoffen ni ei weld yn y pen draw.

EIN GWELEDIGAETH

- Sicrhau bod y Vale yn aros yn galon i'r gymuned.
- Cynnig lle i bobl o bob oed ac o bob man ddod i gymdeithasu.
- Cynnig man cysurus a chroesawgar at ddefnydd mudiadau lleol.
- Cynnal digwyddiadau a nosweithiau cymdeithasol Cymraeg a Chymreig.
- Cefnogi busnesau lleol a chreu phartneriaethau gyda chwmnïau a chymdeithasau'r ardal.
- Cynnig diodydd a phrydau ysgafn, gan ddefnyddio cynnyrch lleol.
- Sicrhau cyfleoedd gwaith ac hyfforddiant i bobl leol, yn hen ac yn ifanc, a'u cefnogi i wireddu eu potensial.

EIN GWERTHOEDD

Ry'n ni am i'r Vale barhau i wneud lles i fywydau pobl Dyffryn Aeron:

- Lles diwylliannol
 - Bod yn lle naturiol-ddiwylliannol sy'n cryfhau ein hunaniaeth a'n treftadaeth
 - Bod yn lle i ddysgu byw
 - Bod yn lle i hyrwyddo a chefnogi'r Gymraeg
- Lles cymdeithasol
 - Lle i fynd i gael peint a chlonc
 - Canolfan gymunedol sy'n fan ymgynnull i bobl o bob oed, grwpiau a chymdeithasau
 - Man diogel, hygrych a chroesawgar sy'n hybu cwmnïaeth
- Lles economaidd
 - Creu swyddi i bobl leol
 - Creu cyfleoedd gwaith i grefftwyr, gweithwyr a masnachwyr lleol
 - Cefnogi cynhyrchwyr bwyd a diod lleol

Menter Tafarn y Dyffryn a'n cymuned

Menter Tafarn y Dyffryn Cyfyngedig yw'r Gymdeithas Budd Cymunedol sydd wedi'i ffurfio fel y gall pobol Dyffryn Aeron a'r gymuned ehangach sicrhau dyfodol tafarn y Vale.

Mae Cymdeithas Budd Cymunedol yn fath arbennig o gorff busnes sy'n eiddo i'r gymuned leol ac yn cael ei rhedeg er ei budd, yn hytrach nad er mwyn elw preifat. Ein nod yw prynu ac adnewyddu'r Vale a'i rhedeg fel tafarn a chanolbwynt pob math o weithgareddau a gwasanaethau y mae eu hangen ar y gymuned.

Yn ddiwylliannol, mae Dyffryn Aeron yn ferw o weithgarwch cymunedol Cymreig a Chymraeg. Mae'r dafarn yn ei hunan yn lle naturiol-ddiwylliannol ac mae ganddi rinweddau y byddai'n anodd iawn eu creu o'r newydd. Gyda thros 50 o fudiadau a chymdeithasau yn y Dyffryn, mae eisoes yn gymuned weithgar sy'n hybu Cymreictod a'r Gymraeg. Un o'r pethau sy'n nodweddu'r ardal yw'r ffordd y mae'n plethu'r economi leol, creadigrwydd a gweithredu cymdogol. Mae yn natur pobol y Dyffryn i ddod ynghyd a chydweithio.

Bydd prynu Tafarn y Vale yn ffordd o hyrwyddo a chryfhau'r holl bethau hyn, ac mae hynny'n rhan graidd o amcanion y fenter.

Credwn bod Tafarn Dyffryn Aeron yn ased hanfodol i'r gymdogaeth, ac mai'r ffordd orau o warchod y gwerth all ddod ohoni yw os bydd Cymdeithas Budd Cymunedol fel ein un ni yn berchen ar y dafarn ac yn ei rhedeg. Mae hwn yn gyfle unigryw i ddod yn berchen ar ran bwysig o ffordd o fyw'r ardal.

Ond er mwyn gwireddu ein gweledigaeth, mae angen i ni godi arian.

O'r gymuned leol y daw'r cyllid mwyaf allweddol, a gall aelodau'r gymuned a'r cyhoedd yn ehangach fynd ati i brynu cyfranddaliadau (siârs) yn y Gymdeithas er mwyn dod yn aelodau a chael cyfrannu syniadau at sut mae'n cael ei rhedeg. Mae ein hanes o weld y gymuned leol yn gwneud pethau dros ein hunain – gyda neuaddau coffa, co-ops y ffermwyr a'n lluo o fudiadau lleol – yn rhoi'r hyder i ni bod y gallu a'r awydd gan bobl Dyffryn Aeron i sicrhau llwyddiant y fenter.

Byddwn hefyd yn chwilio am gyfleoedd i fanteisio ar grantiau gan lywodraethau lleol a chenedlaethol, a gan ymddiriedolaethau annibynnol ac elusennol.

Y stori hyd yn hyn

Ar ôl blynyddoedd dan berchnogaeth Rowland a Daphne Evans, mae tafarn y Vale ar werth ers rhai blynyddoedd, a daeth y les i ben yn ddiweddar. Mae'r manylion gwerthu gyda'r asiant yn nodi pris o £325,000.

Gan bryderu am ddyfodol y dafarn, a'r ffaith y gallai gau, ganol 2021 daeth criw bach ynghyd i weld a fyddai modd ffurfio menter gydweithredol i brynu'r dafarn, a'i rhedeg fel adnodd i'r gymuned. Tyfodd y criw o ddau yn bedwar, a phedwar yn wyth, ac wyth yn dair ar ddeg, a fu

wrthi'n archwilio'r posibilïadau o ffurfio co-op, gan dynnu ysbrydoliaeth o fentrau eraill tebyg ar draws Cymru.

Gyda chymorth Canolfan Cydweithredol Cymru, cofrestrwyd Menter Tafarn y Dyffryn yn Gymdeithas Budd Cymunedol ym mis Awst 2021. Rhif cofrestru'r Gymdeithas gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol yw 8698.

Holwyd i syrfëwr lleol am ei farn o ran gwerth yr eiddo ac, o ystyried y ffaith bod angen rhywfaint o waith adnewyddu, fe nododd fod ei werth, yn ei farn ef, rhwng £290,000 a £320,000.

Ar nos Fercher 25 Awst daeth cynrychiolwyr mudiadau Dyffryn Aeron ynghyd i drafod syniadau ac i ddychmygu pa wahaniaeth allai prynu tafarn y Vale fel co-op ei gwneud i'r gymuned leol.



Yn dilyn hynny, rhannwyd holiadur a chafwyd 82 o ymatebion, a chynhaliwyd cyfres o sesiynau galw heibio ym mhentrefi'r Dyffryn, i rannu gwybodaeth ac ateb ymholiadau am y fenter.



Mae'r ymatebion i'r holl weithgarwch yma'n dangos bod yna ewyllys da a chefnogaeth sylweddol i'r fenter ymysg y gymuned lleol. O'r ymatebion i'r holiadur, nododd 82% eu bod o'r farn ei bod yn 'bwysig iawn' i'r Vale barhau yn dafarn sydd hefyd yn gweithredu fel canolbwynt i'r gymuned, a nododd 78% bod ganddynt ddiddordeb mewn prynu siârs.

Yn dilyn yr ymateb cadarnhaol, aeth y Gymdeithas ati i wneud cynnig cyntaf o £280,000 i brynu'r dafarn, ar yr amod ein bod yn bodloni'r nod ariannol a nodir yn y cynnig yma am gyfranddaliadau. Gwrthodwyd y cynnig gwreiddiol hwnnw, ac yn dilyn rhywfaint o drafod

derbyniwyd ein cynnig o £297,500 mewn egwyddor. Mae teulu'r Evansiaid wedi bod yn gefnogol o'r cysyniad o berchnogaeth gymunedol ers i'r Gymdeithas gyflwyno'r syniad yn gynharach eleni, a hoffai'r Gymdeithas ddiolch iddynt am eu cefnogaeth a'u hamynedd trwy gydol y broses.

Mae'r Gymdeithas yn awyddus i gau'r cynnig yma am gyfranddaliadau cyn y dyddiad y bydd yn rhaid talu am yr eiddo a chwblhau'r pryniant. Bydd hyn yn sicrhau y gellir talu'r ganran fwyaf bosibl o gost y pryniant allan o arian cyfranddaliadau, yn hytrach na dibynnu ar grantiau. Yn ogystal, mae nifer o'r grantiau sydd ar gael yn seiliedig ar senarios 'punt am bunt', felly gorau po fwyaf o arian y byddwn ni'n ei godi trwy'r cynnig siârs, er mwyn gallu manteisio cymaint â phosibl trwy grantiau.

Mae rhedeg Tafarn y Vale fel tafarn gymunedol yn gyfle unigryw i Ddyffryn Aeron gael canolbwynt gwerthfawr i roi hwb i gymuned sy'n weithgar ac yn groesawgar yn barod.

Os byddwn ni – pob un ohonom gyda'n gilydd – yn llwyddo, gallwn wneud gwahaniaeth i fwy na Thafarn y Vale yn unig. Gall cynnal menter llwyddiannus rannu egni ac ysbryd o gyd-greu'r dyfodol trwy'r gymuned gyfan. Gallai rhoi hwb i'n diwylliant a'n ffordd o fyw yng nghefn gwlad, ar adeg pan mae angen hynny'n fwy nag erioed. Gallwn hyd yn oed ysbrydoli eraill i gymryd perchnogaeth dros ddyfodol eu hasedau lleol.

Os nad y Vale, ble? Os nad nawr, pryd? Ac os nad ni, pwy?

Y Grŵp Llywio cychwynnol

Mae'r Grŵp Llywio cychwynnol wedi'i ffurfio o blith sefydlwyr Menter Tafarn y Dyffryn a'r gymuned leol.

Mae'r Grŵp yma'n cynnwys 13 o bobl, ac yn ei gyfarfod ar 20 Hydref 2021 cytunwyd ar fanylion y Cynllun Busnes a'r Cynnig Cyfranddaliadau hwn.

Dyma aelodau'r Grŵp:

Iwan Thomas (Ysgrifennydd) – Mae Iwan yn fachan ei filltir sgwâr, wedi ei fagu yn Nyffryn Aeron ac wedi dychwelyd yno ar ôl cyfnod yn astudio pensaernïaeth yn Llundain. Mae ei ddiddordebau'n cynnwys y celfyddydau a chwaraeon, ac ymysg pethau eraill mae e'n Gynghorydd Cymuned Lleol, yn Gadeirydd Cwmni Theatr Gydweithredol Troed-y-rhiw ac yn arweinydd brwd gyda CFFI Felinfach. Bu rhieni Iwan yn rhedeg tafarn a gwesty llwyddiannus yn Tyglyn Aeron am nifer o flynyddoedd, sy'n golygu bod ganddo ddigonedd o brofiad ymarferol!

Keith Henson (Trysorydd) – Mae gan Keith brofiad o redeg mudiadau a chlybiau diwylliannol a chwaraeon dros y blynyddoedd, ac mae'n Drysorydd Adran Iau Clwb Rygbi Aberaeron. Yn gyn-Rheolwr Banc a chyn-Bennaeth Gwasanaethau Masnachol, mae'n gweithio yn y sector tai ar hyn o bryd, ac yn Gadeirydd Cynnal y Cardi. Mae Keith yn ymfalchïo yn y cyfle i fod yn rhan o brosiect pwysig all adfywio'r ardal, ac yn edrych mlaen at weld yr hwyl yn parhau yn y Vale!

Janice Thomas – Mae Janice yn byw yn Ciliau gyda’i gŵr a’i tri mab. Mae bellach yn Swyddog Cyfathrebu gyda Chymdeithas Tai Barcud, a chyn hynny bu’n gweithio gyda’r Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn Llanercharon am 10 mlynedd. Fel merch o Gribyn, cafodd ei magu ar aelwyd siop a swyddfa bost y teulu, a oedd yn galon i fywyd y pentref. Mae’n gwirfoddoli i Tir Dewi ac yn arweinydd gyda CFFI Felinfach. Mae hefyd yn cynorthwyo gyda nifer o dudalennau Facebook cymunedol yn Nyffryn Aeron.

Dwynwen Llywelyn – Mae Dwynwen yn dod o Dregaron yn wreiddiol, ond yn byw yn Nyffryn Aeron ers nifer o flynyddoedd. Mae’n gynhyrchydd a chyfarwyddwr profiadol, ac yn Bennaeth Theatr Felinfach, gan arwain ar nifer o brosiectau gyda’r gymuned.

Owen Llywelyn – Magwyd Owen yn Felinfach ac mae’n byw yn Nyffryn Aeron. Ar ôl cyfnod fel athro a Chynghorydd Sir, mae bellach yn gweithio yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Mae’n chwarae gitâr flaen mewn band lleol.

Eilir Evans – Bachgen o Felinfach yw Eilir, ac mae’n gweithio yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Mae nid yn unig yn Gadeirydd Cae Chwarae a Chlwb Pêl-droed Felinfach, ond mae hefyd dal yn chwarae i’r clwb... mae’n disgwyl cael gwd pensiwn! Mae’n Arweinydd gyda CFFI Felinfach ac yn Drysorydd 4 eglwys y plwyf yn Nyffryn Aeron. Mae’n hapus i helpu pawb a cheisio cadw pawb i wenu!

Carys Mai – Eleni, symudodd Carys i fyw yn ardal Ciliau, ac mae ei chysylltiadau â Dyffryn Aeron yn gryf ers yn ifanc. Pan nad yw’n Rheolwr Swyddfa i’r Aelod Seneddol Ben Lake, mae’n brysur yn garddio a chwynnu. Mae’n mwynhau perfformio gyda côr Merched Soar, ac mae’n un o Gyfarwyddwyr Cwmni Cydweithredol Troed-y-rhiw.

Lowri Jones – Un o ardal Banc Sion Cwilt yw Lowri yn wreiddiol ond mae wedi ymgartrefu yng Nghiliau Aeron erbyn hyn. Yn ei gwaith bob dydd mae’n cynorthwyo cymunedau gyda phrosiect gwefannau straeon lleol Bro360. Yn ei hamser sbâr mae’n joio gwyllo rygbi lleol a chanu gyda’r côr, ac mae hefyd yn Drysorydd Cwmni Cydweithredol Troed-y-rhiw. Mae wrth ei bodd yn ymwneud ag unrhyw beth sy’n rhoi egni a grym i gymunedau.

Gary Davies – Mae Gary wedi’i eni a’i fagu yn Felinfach, ac mae’n gweithio i Amaethwyr Clynderwen a Cheredigion Cyf ers 34 mlynedd. Mae wedi cymryd sawl rôl gyda’r CCF, o weithio yn y siop i reolwr rhanbarthol, a bellach mae’n Rheolwr Cydymffurfio, sydd â chyfrifoldeb dros iechyd a diogelwch ac ati. Mae Gary yn mwynhau ymwneud â gwahanol fudiadau, gan gynnwys clybiau ffermwyr ifanc, Theatr Felinfach a’r panto, a thimau iau Clwb Pêl-droed Felinfach. Mae’n Gadeirydd Llywodraethwyr Ysgol Ciliau Parc.

Euros Lewis – Ers ymadael o’i waith yn swyddog Addysg Gymunedol â Chyngor Sir Ceredigion mae Euros wedi ceisio cynorthwyo prosiectau sy’n datblygu ymatebion cadarnhaol i’r heriau a wynebwr gan gynefinoedd cynhaliol y Gymraeg (e.e. Gweithgor Dyffryn Aeron, Theatr Gydweithredol Troed-y-rhiw a Phrosiect Fory Radio Beca).

Hywel Ifans – Mae Hywel yn Gyfarwyddwr BCC IT, cwmni TG yng Nghastellnewydd Emlyn sy’n cyflogi oddeutu 35 o staff ac yn gwasanaethu cwsmeriaid ar draws y DU a thu hwnt. Yn gyn-enillydd gwobr arweinydd technegol y flwyddyn yn Nghymru, mae gan Hywel dros chwarter

canrif o brofiad busnes ac mae'n angerddol dros ddatblygu a chynnal economi gref yn nghefn gwlad. Mae'n fodel rôl busnes gyda Syniadau Mawr Cymru sy'n ymdrechu i ysbrydoli'r genhedlaeth nesaf o entrepreneuriaid.

Rob Phillips – Mae Rob yn byw ar fferm Blaenfallen ger Talsarn, yn ŵr i Delyth ac yn dad i Tryfan. Cyn symud i Blaenfallen, roedd e'n byw yn Llanbed ac yn Gynghorydd Tref yno. Mae'n archifydd ac yn gweithio yn y Llyfrgell Genedlaethol. Mae'n un o drefnwyr Gŵyl Gwrw a Seidr Llanbed ac un o'r pwyllgor a ailsefydlodd Gŵyl Fwyd Llanbed 2019.

Dyfed Evans – Er bod Dyfed bellach yn byw yn ardal Llanbed, cafodd ei fagu yn llythrennol y drws nesa i'r Vale. Yn fachan rhifau, mae'n gyfrifydd cymwys ACMA, ac mae'n rhedeg cwmni cydweithredol yn Abertawe.

Os bydd aelod o'r Grŵp Llywio neu aelod o'u teulu agos yn dymuno mynd i berthynas fasnachol â'r Gymdeithas, gofynnir iddynt gamu i lawr o'r Pwyllgor er mwyn osgoi gwrthdaro buddiannau.

Y Cynllun Busnes

Crëwyd cynllun busnes manwl ar gyfer y pum mlynedd gyntaf o redeg Tafarn y Dyffryn. Gallwch ei lawrlwytho o'n gwefan tafarn.cymru, neu os hoffech gopi papur cysylltwch â ni trwy'r cyfeiriad ebost canlynol: cysylltu@tafarn.cymru.

Mae'r ffigyrau wedi'u seilio ar ymchwil a wnaed i brofiad tafarndai gwledig sydd â cefndir a chyfleusterau sy'n tebyg i'r Vale, yn ogystal â ffigurau masnachu hanesyddol. Rydym hefyd wedi derbyn cyngor gan bobl sydd â profiad eang ym maes lletygarwch. Y nod yw creu busnes cynaliadwy, trwy gynhyrchu elw bychan erbyn diwedd blwyddyn dau, a'i gynyddu wedi hynny er mwyn tyfu'r busnes yn raddol bach.

Mae ein gweledigaeth ar gyfer y Vale yn seiliedig ar ailddatblygu'r adeiladau er mwyn darparu'r canlynol:

- Y bar a'r ardaloedd bwyta a chymdeithasu y tu fewn i'r adeilad: rhagwelir rhywfaint o welliannau a moderneiddio, ond y bwriad yw gwneud hynny heb golli naws presennol y gofodau yma.
- Estyniad yn y cefn a newidiadau, er mwyn sicrhau mynediad hygyrch a gwella cyfleusterau tai bach ac ati, ac o bosib er mwyn adleoli'r gegin bresennol i greu gwell cyfleusterau coginio.
- Adnewyddu gofod yr 'Hen Stabal', naill er mwyn creu ystafell amlbwrpas y gellir ei defnyddio gan gymdeithasau a digwyddiadau preifat, neu o bosib ar gyfer creu llety gwyliau i'w osod i ymwelwyr.
- Ymgymryd â gwelliannau sy'n angenrheidiol i'r adeiladwaith bresennol, gan gynnwys gwelliannau i'r systemau gwresogi a thrydan ac ati.
- Gwelliannau i safonau inswleiddio presennol yr adeiladwaith, a mesurau eraill a fydd yn lleihau yr ôl-troed carbon ac yn sicrhau cynaliadwyedd y fenter i'r dyfodol.
- Creu gardd gwrw ddeniadol sy'n addas i'r teulu cyfan, gyda chegin allanol ac o bosib llwyfan fechan ar gyfer cerddoriaeth fyw yn yr haf.
- Gofod parcio wedi'i ailgynllunio a'i darmacio, gyda lle i'r anabl, o bosib pwynt gwefru ar gyfer ceir trydan a lle i adael beics.

Mae'n werth nodi bod prynu'r dafarn yn golygu dod yn berchen ar fflat tair ystafell wely, sydd ar hyn o bryd yn cael ei rhentu ar gyfradd y farchnad o tua £400 y mis. Gellir ystyried sawl opsiwn ar gyfer y fflat, gan gynnwys adnewyddu'r cytundeb byr-dymor presennol, gosod y fflat i staff, neu adnewyddu'r fflat a'i gosod fel llety gwyliau, o bosib.

Fe fydd rheolwr yn cael ei benodi maes o law i redeg y bar a'r bwyty ac ati, ac yn ogystal bydd angen cogydd a staff bar. Y bwriad fydd parhau i gynnig cyfleoedd gwaith, profiad ac hyfforddiant i ieuenctid yr ardal. Rhagwelwn bydd creu cyfle i wirfoddoli ar gyfer ambell shift wrth y bar neu yn y gegin hefyd yn werthfawr wrth sicrhau cynaliadwyedd y fenter ac wrth sicrhau budd cymdeithasol.

Y rheolwr fydd rheolwr llinell y staff, a bydd yn cydlynu'r gwirfoddolwyr y bydd angen iddynt gynorthwyo ar adegau. Bydd y rheolwr yn adrodd i gynrychiolydd y Grŵp Llywio yn rheolaidd. Mae rhagor o fanylion am faterion llywodraethu, staffio a chyflogau i'w gweld yn y Cynllun Busnes.

Gydag amser, ein bwriad fydd gwneud cais am grant i ganiatáu penodi Swyddog Datblygu, a fydd yn canolbwyntio ar ymgysylltu â'r gymuned, trefnu digwyddiadau a gweithgareddau rheolaidd, creu cysylltiadau â rhanddeiliaid amrywiol a hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg mewn modd rhagweithiol. Y Swyddog Datblygu fydd yn gyfrifol am recriwtio gwirfoddolwyr, cyfathrebu a marchnata ac am baratoi ceisiadau grant i ariannu unrhyw waith datblygu pellach.

Dyma'r rhagolygon masnachu ariannol allweddol am y tair blynedd gyntaf (£):

	Blwyddyn 1	Blwyddyn 2	Blwyddyn 3	Blwyddyn 4
Incwm (£)	93,017	108,057	112,229	117,596
Gwariant (£)	105,375	105,940	107,495	107,104
Elw / Colled heb y dibrisiant (£)	-12,358	2,118	4,764	10,493

Mae'r Cynllun Busnes yn rhagdybio y bydd ein hymdrechion i godi arian, trwy gyfuniad o werthu siârs, ennill grantiau a gweithgareddau codi arian eraill, yn llwyddiannus.

Bydd ceisiadau grant yn cael eu datblygu y ystod y cyfnod y bydd y cynnig i brynu siârs ar agor a thu hwnt. Fodd bynnag, y nod yw ailagor y Vale cyn gynted ag sy'n bosibl yn ei gyflwr presennol, gan wneud unrhyw waith datblygu a gwelliannau tua 9 i 12 mis yn y dyfodol, yn ddibynnol ar lwyddiant ceisiadau grant.

Cymorth wrth ymgeisio am gyllid grant

Mae Cyngor Sir Ceredigion, trwy eu cynllun Cynnal y Cardi, wedi cytuno i'n cynorthwyo â'r gwaith o ddatblygu cynigion am gyllid grant. Mae Menter Tafarn y Dyffryn eisoes wedi sicrhau cyllid o dros £6,000 gan Cynnal y Cardi.

Isod ceir rhai enghreifftiau o ffynonellau ariannu posibl ar gyfer y gwaith o adnewyddu a datblygu'r adeiladau a ffynonellau cyllid refeniw posibl ar gyfer staffio:

- Cronfa Perchnogaeth Gymunedol Llywodraeth y Deyrnas Unedig

Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi lansio Cronfa Perchnogaeth Gymunedol newydd gwerth £150 miliwn i sicrhau y gall cymunedau ledled Cymru, yr Alban, Lloegr a gogledd Iwerddon barhau i gefnogi ac elwa ar y cyfleusterau, yr asedau cymunedol a'r amwynderau lleol sydd bwysicaf iddynt. Bydd grwpiau cymunedol yn gallu gwneud cais am hyd at £250,000 o arian cyfatebol i'w helpu i brynu neu gymryd drosodd asedau cymunedol lleol sydd mewn perygl o gael eu colli, i'w rhedeg fel busnesau sy'n eiddo i'r gymuned. Bydd y rownd nesaf o geisiadau ar gyfer y Gronfa Perchnogaeth Gymunedol yn agor ym mis Rhagfyr 2021, ac mae menter Tafarn y Dyffryn yn gweithio tuag at gyflwyno cais yn y rownd hwnnw.

- Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol - Pobl a Lleoedd

Mae'n cynnig cyllid o rhwng £100,001 a £500,000 i brosiectau lle mae pobl a chymunedau'n cydweithio ac yn defnyddio eu cryfderau i gael effaith gadarnhaol ar y pethau sydd bwysicaf iddynt. Gall 'Pobl a Lleoedd' ariannu costau cyfalaf a refeniw hyd at £500,000, megis offer, costau staff ac adnewyddu. Gall ariannu prosiectau am hyd at bum mlynedd.

- Llywodraeth Cymru – Rhaglen Cyfleusterau Cymunedol

Cynllun grant cyfalaf yw hwn a weithredir gan Lywodraeth Cymru. Mae grantiau ar gael ar ddwy lefel: grantiau bach o dan £25,000 a grantiau mwy o hyd at £250,000. Gellir defnyddio'r grantiau i wella cyfleusterau cymunedol sy'n ddefnyddiol i bobl yn y gymuned ac sy'n cael eu defnyddio'n gyson gan bobl yn y gymuned.

Os yw'r arian o'r grantiau'n araf yn dod trwyddo, bydd y cynllun yn cael ei dorri nôl, a bydd elfennau unigol o'r datblygiad sy'n cael eu disgrifio yma yn cael eu dileu neu'u gohirio nes y bydd cyllid ar gael. Pe digwydd bod yr incwm ariannu yn fach iawn, mae'r Grŵp Llywio yn hyderus y byddai gwaith atgyweirio sylfaenol ac ailaddurno'r safle fel y mae, wedi ei wneud a'i staffio'n bennaf gan wirfoddolwyr, yn caniatáu i'r dafarn ailagor. Fodd bynnag, nid yw hyn yn cynrychioli hyd a lled gweledigaeth ac uchelgais Menter Tafarn y Dyffryn. Dylid ei ystyried fel dim mwy na chynllun wrth gefn.

Ar adeg priodol, a chyn mynd i wario'n sylweddol (ac eithrio prynu'r adeilad ei hun), fe fydd yna gynllun terfynol, wedi'i seilio ar y cyllid sydd wedi'i sicrhau, yn cael ei roi ger bron yr aelodau i'w gymeradwyo.

Bydd unrhyw elw a gynhyrchir o fasnachu yn cael ei ddefnyddio i dalu am yr eitemau sefydlog a dewisol canlynol:

- Unrhyw rwymedigaethau treth gorfforaeth
- Llog ar fenthyciadau
- Ad-dalu benthyciadau
- Cynnal a chadw'r adeilad
- Gwella a datblygu'r cyfleusterau

- Llog ar gyfalaf siârs
- Hwyluso prynu siârs yn ôl o bryd i'w gilydd

Er mwyn bod yn ofalus, byddwn yn anelu at adeiladu cronfa wrth gefn resymol i ymdrin â chostau annisgwyl.

Os na fydd y Gymdeithas yn gallu cwblhau prynu'r eiddo ac os nad yw'r aelodau wedi cymeradwyo unrhyw gynllun amgen, fe fydd cronfeydd cyfranddalwyr yn cael eu had-dalu iddynt, llai unrhyw gostau gweinyddol fydd wedi codi, a bydd cynnig yn cael ei wneud gerbron Cyfarfod Cyffredinol i ddod â'r Gymdeithas i ben.

Sylwch bod manylion pellach am sut y crëwyd y rhagolygon masnachu a'r gwaith ymchwil a'r tybiaethau a wnaed yn y Cynllun Busnes ei hun.

Sut y bydd ein Cymdeithas Budd Cymunedol yn gweithio?

Nid prynu tafarn yw'r unig beth dan sylw fan hyn - mae'n ymwneud yn bennaf â helpu i gynnal y gymuned. Bydd yr enillion ariannol yn gyfyngedig, ond efallai y byddwch yn ennill llog ac fe fydd eich atebolrwydd yn gyfyngedig. Efallai y bydd modd i chi arbed treth trwy fuddsoddi hefyd.

Un aelod, un bleidlais

Mae'n rheol allweddol fod gan bob Aelod un bleidlais, s'dim ots faint o siârs y maen nhw'n berchen arnynt.

Mae pob siâr yn werth £1. Isafswm nifer y siârs y mae modd eu dal yw 200, a'r uchafswm yw 30,000. Rhaid i aelodau fod dros 16 oed (ond mae modd i oedolyn brynu siârs ar ran plentyn a'i gadw mewn ymddiriedaeth). Rhaid talu am y siârs yn llawn wrth wneud cais. Os hoffech dalu am eich siârs dros gyfnod o amser, cysylltwch â ni i drafod y dewisiadau.

Rheolau a Llywodraethiant

Mae'r Gymdeithas wedi mabwysiadu y Rheolau model ar gyfer Cymdeithasau Budd Cymunedol, a luniwyd gan Ganolfan Cydweithredol Cymru. Gellir gweld copi ar ein gwefan.

Cyfrifoldeb y Grŵp Llywio fydd rhedeg y fenter o ddydd i ddydd, ac aelodau'r Grŵp fydd Cyfarwyddwyr cyfreithiol y Gymdeithas. Aelodau'r Gymdeithas fydd yn penodi aelodau'r Grŵp Llywio ac yn cymeradwyo polisïau talu llog ar gyfranddaliadau ac ailbrynu cyfranddaliadau, a hynny yn y Cyfarfodydd Blyneddol.

Bydd aelodau etholedig y Grŵp Llywio yn dal eu swyddi am gyfnod o dair blynedd. Bydd yr aelodau hynny sy'n ffurfio'r Grŵp Llywio cychwynnol i gyd yn ymddeol yn y CCB cyntaf yn unol â Rheolau'r Gymdeithas, ond gallant gynnig eu hunain i'w haillethol. Wedi hynny, bydd aelodau'r Grŵp Llywio yn ymddeol yn raddol dros y tair blynedd ganlynol yn unol â Rheolau'r Gymdeithas.

Bydd holl aelodau newydd y Grŵp Llywio yn cael eu hethol gan aelodau'r Gymdeithas. Bydd gan bob aelod hawl i fynychu'r CCB a sefyll i'w ethol i'r Grŵp Llywio.

Yn ogystal â'r Grŵp Llywio, fe fydd yna groeso i wirfoddolwyr ddod at ei gilydd i roi'r fenter ar ei thraed ac i helpu gyda'r gwaith o'i chynnal. Rydym yn rhagweld grwpiau gwahanol yn canolbwyntio ar faterion megis Busnes a Chyllid, yr Adeilad, Bwyd a Diod, yr Ardd, Gweithgareddau a Hyrwyddo.

Taliadau llog

Unwaith y byddwn wedi cwblhau pedair blynedd gyflawn o fasnachu, ac os yw'r busnes yn rhedeg yn llwyddiannus a bod digon o arian wrth gefn, rydym yn gobeithio talu llog blyneddol o uchafswm o 2% ar gyfranddaliadau aelodau. Bob blwyddyn, bydd y Grŵp Llywio yn cyflwyno argymhelliad ynglŷn â thaliadau llog ar gyfranddaliadau i'w gymeradwyo gan yr aelodau yn y Cyfarfod Blyneddol.

Ailbrynu Cyfranddaliadau

Ni fydd yn bosib gwerthu na throsglwyddo eich cyfranddaliadau, ac eithrio yn achos marwolaeth neu fethdaliad. Yr unig ffordd o gael gwerth eich buddsoddiad yn ôl fydd trwy wneud cais i'r Gymdeithas ei hun eu prynu nôl am eu gwerth gwreiddiol.

Dim ond o warged, neu o gyfalaf newydd a godir gan aelodau, y gellir tynnu cyfalaf eich cyfranddaliadau allan. Bydd angen i chi roi o leiaf dri mis o rybudd o'ch dymuniad i dynnu'n ôl. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi nad ydym yn rhagweld y gallwn ganiatáu tynnu arian yn ôl cyn blwyddyn 5. Pan fydd yn bosibl ystyried ailbrynu cyfranddaliadau, bydd y Grŵp Llywio yn nodi meini prawf ac uchafsymiau blyneddol priodol. Mae'n bwysig deall y gall y Grŵp benderfynu peidio â chytuno i ailbrynu os yw hynny'n groes i fuddiannau tymor hir y Gymdeithas, yr angen i gynnal cronfeydd wrth gefn digonol, a'r ymrwymiad i'r gymuned.

Clo Asedau

Mae Rheolau'r Gymdeithas yn cynnwys clo asedau sy'n creu rhwymedigaeth gyfreithiol. Mae hyn yn golygu, ar ôl iddi dalu llog i gyfranddalwyr ac ad-dalu unrhyw gyfalaf sy'n cael ei dynnu allan, fod yn rhaid i unrhyw enillion sydd yn weddill gael eu hail-fuddsoddi yn y busnes neu eu defnyddio er budd y gymuned leol neu at achos elusennol neu gymunedol arall. Mae hyn yn golygu, pe bai'r Gymdeithas yn cau ond bod yr adeilad wedi cynyddu yn ei werth, y byddai'n bosibl gwerthu'r asedau a dychwelyd cyfalaf i aelodau hyd at werth y buddsoddiadau gwreiddiol, ond na fyddai'n bosibl dosbarthu unrhyw werth ychwanegol yn y ffordd yma.

Tâl

Ni fydd cyfarwyddwyr ac aelodau yn elwa'n ariannol mewn unrhyw ffordd o weithgareddau'r Gymdeithas, heblaw trwy gymryd rhan yng nghynnig siârs a chynigion benthygiad y Gymdeithas.

Rhyddhad Treth Buddsoddi Cymdeithasol (SITR)

Mae'r Gymdeithas wedi gwneud cais am Sicrwydd Ymlaen Llaw gan Gyllid a Thollau EM (CThEM) y bydd buddsoddiadau a wneir trwy'r Cynnig Cyfranddaliadau hwn yn gymwys ar gyfer SITR (Rhyddhad Treth Buddsoddi Cymdeithasol).

Os caiff y sicrwydd hwn ei ddyfarnu, bydd y buddsoddwyr hynny sy'n drethdalwyr yn derbyn credyd maes o law gan CThEM o hyd at 30% o'u buddsoddiad (yn ddibynnol ar y gyfradd y maent yn talu treth incwm arni) trwy eu hasesiad treth blynyddol. Mae hyn yn golygu mai dim ond £700 y bydd buddsoddiad o £1,000 yn costio, mewn gwirionedd, i'r buddsoddwr.

Bedwar mis ar ôl dechrau masnachu, (o gwmpas canol 2022, fwy na thebyg), bydd y Gymdeithas yn cyflwyno hawliad i CThEM fydd yn rhoi manylion am y buddsoddiadau a wnaed gan unigolion. Bydd CThEM (os byddant yn hapus gyda'r ffurflen a gyflwynwyd) yn anfon llythyr i'r Gymdeithas yn cadarnhau y bydd SITR ar gael, ynghyd â thystysgrif cydymffurfio ar gyfer pob buddsoddwr. Bydd y Gymdeithas yn anfon y dystysgrif hon at y buddsoddwyr, a bydd rhaid iddyn nhw wedyn hawlio rhyddhad treth naill ai trwy eu ffurflen dreth flynyddol neu trwy ofyn i CthEM am god PAYE newydd.

I fod yn gymwys, rhaid i'r cyfranddaliadau gael eu dal gan fuddsoddwr am o leiaf 3 blynedd. Dylai buddsoddwyr sy'n meddwl buddsoddi ar y cyd ystyried a fyddai yna fanteision treth o fod yn rhoi'r rhan fwyaf o'u buddsoddiad yn enw'r unigolyn sydd yn y sefyllfa orau i gymryd mantais o'r rhyddhad treth sydd ar gael.

Efallai hefyd y bydd eich buddsoddiad yng nghyfranddaliadau'r Gymdeithas yn gymwys i gael rhyddhad busnes o dan reolau treth etifeddiant.

Sut i wneud cais am siârs

Os ydych chi am ddod yn aelod o Menter Tafarn y Dyffryn Cyfyngedig a buddsoddi yn ein menter, cwblhewch y Ffurflen Fuddsoddi unai ar-lein ar tafarn.cymru neu trwy ei dychwelyd i'r cyfeiriad canlynol: Menter Tafarn y Dyffryn, d/I Maescledan, Nebo, SY23 5LF.

Rhybudd Pwysig

Rhaid i chi ddarllen y pwyntiau canlynol am y cynnig cyfranddaliadau cyn penderfynu a ydych chi'n dymuno cymryd rhan:

- I. Pan fyddwch yn ystyried prynu cyfranddaliadau mae'n hanfodol eich bod yn deall mai buddsoddiad yn ein cymuned yw hwn, gyda'r bwriad o greu ased diogel a pharhaol i ni i gyd.
- II. Y bwriad yw adeiladu ar ein seiliau cymdeithasol a helpu i greu cymuned ffyniannus a chynaliadwy. Nid yw'n fuddsoddiad confensiynol ac ni ddylech ddisgwyl enillion ariannol uchel nac uniongyrchol. Mae gwybodaeth lawn wedi'i nodi yn rheolau'r Gymdeithas sydd ar gael ar ein gwefan.

Sylwch:

- III. Ni all gwerth cyfranddaliadau gynyddu y tu hwnt i'w gwerth gwreiddiol. Dylech fod yn ymwybodol y gallai gwerth cyfranddaliadau ostwng os yw'r busnes yn aflwyddiannus.
- IV. Fel buddsoddwr mae eich atebolrwydd wedi'i gyfyngu i werth eich cyfranddaliadau. Pe bai'r busnes yn methu, sy'n annhebygol, ni fyddai gennych unrhyw atebolrwydd pellach.
- V. Ar hyn o bryd mae'r Gymdeithas yn bwriadu ystyried talu llog ar gyfranddaliadau ar ôl i'r bedwaredd flwyddyn o fasnachu gael ei chwblhau a galluogi cyfranddalwyr i dynnu buddsoddiadau yn ôl ar ôl y bumed flwyddyn. Mae rheolau'r Gymdeithas yn caniatáu i daliadau llog gael eu hatal os nad yw perfformiad ariannol y Gymdeithas yn cyfiawnhau taliad o'r fath. Mae rhagamcanion ariannol manwl ar gyfer perfformiad y Gymdeithas wedi'u cynnwys yn y Cynllun Busnes.
- VI. Yr unig ffordd y gall rhywun adennill ei fuddsoddiadau (p'un ai yw hynny'r swm cychwynnol neu unrhyw werth gostyngedig), oni bai am daliadau llog neu ad-daliadau cyffredinol, yw trwy roi rhybudd i'r Gymdeithas o ddymuniad i dynnu buddsoddiad yn ôl. Ni all hyn ddigwydd yn ystod y pum mlynedd gyntaf wedi dyddiad cyhoeddi y cyfranddaliadau hyn.
- VII. Mae'r amodau penodol ar gyfer tynnu'n ôl yn cynnwys:
 - A. Rhaid i arian a dynnir yn ôl gael ei ariannu o wargedion masnachu neu gyfalaf cyfranddaliadau newydd. Maent yn ddewisol, gan fod yn ddarostyngedig i foddhad y Grŵp Llywio bod tynnu'n ôl yn gyson â buddiannau tymor hir y Gymdeithas.
 - B. Mae'r cyfanswm ad-daladwy bob blwyddyn wedi'i gyfyngu i uchafswm o 10% o werth cyfredol y cyfranddaliad.
 - C. Rhaid rhoi rhybudd o dri mis.
- VIII. Bydd yr holl arian a fuddsoddir yn y cynnig cyfranddaliadau yma'n cael ei ddal yng nghyfrif banc Menter Tafarn y Dyffryn Cyfyngedig a'i ddefnyddio yn unig at ddibenion prynu tafarn y Vale, adnewyddu cyfleusterau'r dafarn, cyfalaf gweithio a chostau fydd yn codi wrth lansio a gweinyddu'r Gymdeithas. Os na fydd y pryniant yn mynd rhagddo, ad-delir yr holl gyfraniadau yn net o'r costau fydd wedi codi.
- IX. Yn y pen draw, bydd caniatáu Rhyddhad Treth Buddsoddi Cymdeithasol (SITR) yn fater i CThEM. Er bod y Gymdeithas wedi cymryd camau i sicrhau nad oes unrhyw beth yn y cynnig cyfranddaliadau hwn nac yn y ffordd y bydd y cyllid ddaw i mewn yn cael ei ddefnyddio yn groes i reolau SITR (ac wedi ceisio sicrwydd ymlaen llaw gan CThEM ar y sail honno), nid yw'n cymryd unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw fethiant gan fuddsoddwyr unigol i adennill treth mewn perthynas â'u buddsoddiadau. At hynny, eu cyfrifoldeb unigol hwy fydd sicrhau cywirdeb gwybodaeth am statws treth a fydd wedi'i darparu ganddynt wrth fuddsoddi.
- X. **Mae Menter Tafarn y Dyffryn Cyfyngedig wedi'i chofrestru fel cymdeithas gyda'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol (FCA), ond nid yw'r FCA yn rheoleiddio gwerthu cyfranddaliadau cymunedol. Fel llawer o fuddsoddiadau, mae cyfranddaliadau cymunedol yn agored i risg a gallech golli rhywfaint neu'r cyfan o'r arian rydych yn ei fuddsoddi. Yn wahanol i gyfrifon cadw gyda banciau stryd fawr, nid yw'r Cynllun Iawndal Gwasanaethau Ariannol yn cynnwys cyfranddaliadau cymunedol, ac nid oes unrhyw hawl i gwyno i Wasanaeth yr Ombwdsmon Ariannol. Os ydych chi'n ystyried buddsoddi swm sylweddol yna efallai yr hoffech chi ofyn am gyngor ariannol annibynnol cyn gwneud hynny.**

I gael rhagor o wybodaeth am y prosiect, ewch i'n gwefan tafarn.cymru neu cysylltwch â ni ar cysylltu@tafarn.cymru.

Argraffwyd y ddogfen hon gyda chefnogaeth:



Ffurflen fuddsoddi

Swm i'w fuddsoddi (lleiafswm o £200, uchafswm o £30,000)

£ _____
Enw llawn _____
Cyfeiriad _____
Cod post _____
Rhif ffôn _____ Ebst _____

Ac, os yn prynu ar ran plentyn (dan 16 oed):

Enw llawn y plentyn _____ Dyddiad geni _____

Neu, os yn prynu ar ran cymdeithas, clwb neu gwmni:

£ _____
Enw'r gymdeithas neu'r cwmni _____
Enw'r cynrychiolydd sy'n gweithredu ar ran y gymdeithas/cwmni _____
Swydd y cynrychiolydd sy'n gweithredu ar ran y gymdeithas/cwmni _____
Cyfeiriad _____
Cod post _____
Rhif ffôn _____ Ebst _____

Ticiwch yma os hoffech dderbyn ffurflen Sitr3 i hawlio gostyngiad treth

☐

Dull talu

☐ Taliad uniongyrchol i'n cyfrif banc, gan ddefnyddio 10281 ac yna llythrennau cyntaf eich enw a thri rhif olaf eich rhif ffôn fel cyfeirnod (e.e. cyfeirnod Sam Tân fyddai 10281-ST999):

1 0 2 8 1 - _ _ _ _

Enw busnes: Llanelli & District Credit Union Ltd (L&DCU)

Cod didoli: 30-95-14 (Lloyds Bank)

Rhif y cyfrif: 00036705

☐ Siec yn daladwy i: Menter Tafarn y Dyffryn

Rwy'n cadarnhau fy mod wedi darllen a deall y Cynnig Cyfranddaliadau llawn a chytunaf i'r canlynol gael eu cadw mewn cronfa ddata electronig: fy enw, cyfeiriad, rhif ffôn, ebost, nifer y cyfranddaliadau a brynwyd. Defnyddir y wybodaeth yma i gynnal cofrestr o aelodau a chyfranddaliadau fel sy'n ofynnol gan reolau'r Gymdeithas ac ar gyfer cyfathrebu gweithgareddau Menter Tafarn y Dyffryn. Bydd y swm a fuddsoddir yn gyfrinachol ac ni fydd unrhyw wybodaeth yn cael ei throsglwyddo i drydydd parti.

Llofnod _____ Enw _____

Dyddiad _____

Anfonwch at: Menter Tafarn y Dyffryn Cyf, d/I Maescledan, Nebo, SY23 5LF neu ar ebost cyfran@tafarn.cymru.

Cyhoeddir derbynebaw trwy ebost lle bynnag y bo modd i leihau costau gweinyddol. Bydd tystysgrif cyfranddaliad yn cael ei anfon atoch maes o law.